**Cyfarfod Bwrdd Cymunedol Prifysgol Bangor (13 Mawrth 2023)**

**Presennol**: Daeth cynrychiolwyr o'r cyrff/sefydliadau canlynol i'r cyfarfod: Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Bangor; Cyngor Gwynedd; Cyngor Dinas Bangor; Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru; Adra; Mantell Gwynedd; Cymdeithas Ddinesig Bangor; Menter Môn; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Materion dan sylw**: Gyda'r Athro Andrew Edwards yn cadeirio, trafodwyd y materion canlynol: Canolfan Groeso Wcrain ym Mhrifysgol Bangor; diweddariad ar drin cwad Prif Adeilad y Celfyddydau; adborth o ddigwyddiad Sefydliad Materion Cymreig – digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref ar dwristiaeth gynaliadwy; diweddariad ar Ysgol Feddygol Gogledd Cymru; cyflwyniad gan gadeirydd Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN); cyflwyniad gan gyfarwyddwr Dinas Cyngor Bangor ar yr amrywiaeth o brojectau i helpu adfywio canol y ddinas; crynodeb byr ar Barc y Coleg; cyflwyniad gan y tîm Cenhadaeth Ddinesig, gan gynnwys diweddariad ar y wefan, lansiad y Gronfa Gymunedol, y diwrnod cymunedol ac adborth o holiadur y Bwrdd Cymunedol; diweddariad ar waith Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor ac Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB) ar amrywiol brojectau yn ymwneud â phobl hŷn, plant a phobl ifanc, yr amgylchedd, lles a chodi arian. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf a sut caiff ei gynnal (ar-lein neu yn y cnawd) i'w cadarnhau.